



Prifysgol Cymru

Y Drindod Dewi Sant

University of Wales

Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education

Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Cymraeg mewn Arfer Proffesiynol 2025-26



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Cymraeg mewn Arfer Proffesiynol

ECAD5019C

Modwl 10 Credyd

Portffolio yn cynnwys:

- cynllun gwers
- adnoddau
- recordiad o'r wers feicro
- gwerthusiad o'r wers
- Cyflwyno ar **Turnitin**

Portffolio Fframwaith Cymwyseddau Iaith (gofyniad LLC)

Portffolio yn cynnwys:

- tystiolaeth o'ch sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer siarad, ysgrifennu, gwranddo a darllen
- tystiolaeth o strategaethau 'Dysgu ac Addysgu' (gwaith y Modwl 10 Credyd)
- Cyflwyno ar **Pebblepad**.

Dyddiad Cyflwyno Popeth:

**Dydd Mercher 4ydd o
Fawrth 2026**

ECAD5019C: Modwl 10 credyd



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

ECAD5019C Modwl 10 Credyd

Elfen Asesu 1: 7.5 munud

- recordiad ffilm o un wers feicro

Elfen Asesu 2: 1000 gair

- cynllun gwers
- adnoddau'r wers
- gwerthusiad byr o'r wers. Bydd angen cyfeirio at lenyddiaeth addas.

**** Cofiwch fod ffocws ar bedagogeg a strategaethau dysgu ac addysgu, yn ogystal â'ch cywirdeb ieithyddol. Gellir dod o hyd i'r taflenni asesu ar Moodle.***

Cynllun Gwers

Strategaethau i gefnogi datblygiad iaith Gymraeg y dysgwyr

Geirfa allweddol:

Ffocws iaith:

Gweithgareddau addysgu a dysgu iaith:



Cofiwch nodi eich adnoddau yma hefyd

Disgwyliadau ac asesu

ECAD5019C

- Byddwch chi'n cyflwyno UN ddogfen fydd yn cynnwys dolen i'r ffilm, y cynllun, yr adnoddau a'r gwerthusiad.
- Eich cyfrifoldeb **chi** ydy sicrhau bod y ddolen yn gweithio.
- Ffocws ar eich dulliau dysgu ac addysgu a chywirdeb iaith h.y. pa mor effeithiol yw'r strategaethau dysgu iaith rydych chi'n defnyddio.
- Bydd cynnwys yr aseiniad 10 credyd yn gallu cael ei gynnwys yn y portffolio hefyd.
- Bydd rhaid casglu tystiolaeth ehangach i'ch portffolio Fframwaith Cymwyseddau Iaith hefyd.

ECAD5019C Modwl 10 Credyd

Cofiwch gynnwys y canlynol mewn un Powerpoint:

- dolen i recordiad ffilm o'r wers 7.5 munud.
- cynllun gwers.
- adnoddau'r wers.
- gwerthusiad byr o'r wers.

Bydd angen cyfeirio at lenyddiaeth addas.

ECAD5019C Modwl 10 Credyd

ECAD5019 Lefel 5	METHU	BODDHAOL	DA	DA IAWN	RHAGOROL
RHAN 1 – Meicro Ddysgu	0-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-100%
	0-9	10-12	13-14	15-17	18-25
Defnydd o'r Gymraeg yn naturiol yn y wers, gan gynnwys gorchmynion a chyfarwyddiadau .	Defnydd cyfyngedig iawn o'r Gymraeg yn y wers. Heb ddefnyddio gorchmynion a chyfarwyddiadau.	Defnydd boddhaol o'r Gymraeg wrth ymateb yn naturiol yn y wers. Cyflwyno gorchmynion a chyfarwyddiadau yn syml i'r dysgwyr.	Defnydd da o'r Gymraeg wrth ymateb yn naturiol yn y wers. Cyflwyno gorchmynion a chyfarwyddiadau yn gryno ac yn sylfaenol gywir i'r dysgwyr.	Defnydd da iawn o'r Gymraeg wrth ymateb yn naturiol yn y wers Cyflwyno gorchmynion a chyfarwyddiadau amrywiol yn gywir gan fwyaf i'r dysgwyr.	Defnydd rhagorol neu gadarn o'r Gymraeg wrth ymateb yn naturiol yn y wers. Cyflwyno gorchmynion a chyfarwyddiadau amrywiol yn glir ac yn gywir gyda'r dysgwyr.
Cywirdeb llafar (e.e ynganu, brawddegau a phatrymau, treigladau, termau, amser y ferf)	Gwallau niferus yn cyfyngu'r ddealltwriaeth. Ynganu aneglur.	Gwallau niferus yn amharu ar ddealltwriaeth yn gyson. Ynganu'n glir a Chymreig ar y cyfan ond enghreifftiau o ynganu anghywir/ Seisnigaidd ar brydiau.	Gwallau niferus yn amharu ar ddealltwriaeth ar adegau. Ynganu'n eithaf clir a Chymreig gan fwyaf.	Rhai gwallau ond heb amharu ar ddealltwriaeth. Ynganu'n glir a Chymreig gan fwyaf.	Nifer cyfyngedig o wallau yn unig. Ynganu'n gwbl glir a Chymreig.
Strategaethau addysgu a dysgu ar gyfer datblygu sgiliau iaith y dysgwyr gan gynnwys ymateb i gamsyniadau'r dysgwyr.	Strategaethau addysgu anaddas ar gyfer datblygu iaith y dysgwyr. Heb ymateb neu'n ymateb yn anfodddhaol i gamsyniadau'r dysgwyr.	Strategaethau addysgu addas ar gyfer datblygu iaith y dysgwyr. Ymgais i ymateb i gamsyniadau'r dysgwyr.	Strategaethau addysgu pwrpasol ar gyfer datblygu iaith y disgyblion. Ymateb yn dda i gamsyniadau'r dysgwyr.	Strategaethau addysgu pwrpasol ac effeithiol ar gyfer datblygu iaith y disgyblion. Ymateb yn dda iawn i gamsyniadau'r dysgwyr.	Strategaethau addysgu pwrpasol ac effeithiol iawn sy'n datblygu ac yn ymestyn iaith y dysgwyr. Ymateb yn rhagorol i gamsyniadau'r dysgwyr.
Gweithgareddau a defnydd o adnoddau.	Gweithgareddau anaddas a defnydd cyfyngedig o adnoddau i ddatblygu sgiliau iaith y dysgwyr.	Gweithgareddau addas a defnydd boddhaol o adnoddau sy'n datblygu sgiliau iaith y dysgwyr.	Gweithgareddau pwrpasol a defnydd pwrpasol o adnoddau sy'n datblygu sgiliau iaith y dysgwyr.	Gweithgareddau pwrpasol ac effeithiol a defnydd effeithiol o adnoddau sy'n datblygu sgiliau iaith y dysgwyr.	Gweithgareddau pwrpasol ac effeithiol iawn a defnydd effeithiol iawn o adnoddau sy'n datblygu ac yn ymestyn sgiliau iaith y dysgwyr.

ECAD5019C Modwl 10 Credyd

	METHU	BODDHAOL	DA	DA IAWN	RHAGOROL
	0-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-100%
RHAN 2 – Portffolio	0-9	10-12	13-14	15-17	18 -25
Cynllunio ac arddangos dealltwriaeth o fethodolegau dysgu ac addysgu iaith i ddatblygu anghenion ieithyddol y gynulleidfa darged. <i>(Tasgau pwrpasol a gwahaniaethol, adnoddau, datblygiad iaith y dysgwyr).</i>	Diffyg tystiolaeth o arddulliau addysgu a dysgu wrth gynllunio.	Tystiolaeth foddhaol o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi, datblygu a gwahaniaethu sgiliau iaith y dysgwyr.	Tystiolaeth dda o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi, datblygu a gwahaniaethu sgiliau iaith y dysgwyr.	Tystiolaeth dda iawn o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi, datblygu a gwahaniaethu sgiliau iaith y dysgwyr.	Tystiolaeth gadarn neu hynod o gadarn o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi, datblygu a gwahaniaethu sgiliau iaith y dysgwyr.
Cywirdeb y Gymraeg wrth gyflwyno patrymau a geirfa i ddysgwyr. <i>(Yn cynnwys cywirdeb wrth gynllunio defnydd o'r Gymraeg yn y wers e.e ffocws iaith, patrymau / cwestiynau,</i>	Gwallau sylfaenol niferus wrth gynllunio.	Cywirdeb boddhaol wrth gynllunio defnydd o'r Gymraeg yn y wers.	Cywirdeb da wrth gynllunio defnydd o'r Gymraeg yn y wers.	Cywirdeb da iawn o gywirdeb wrth gynllunio defnydd o'r Gymraeg yn y wers.	Cywirdeb rhagorol neu gadarn wrth gynllunio defnydd o'r Gymraeg yn y wers.



ECAD5019C Modwl 10 Credyd

gorchmynion / geirfa).					
Ymgysylltu gyda llenyddiaeth. <i>(yn cynnwys darllen, cyfeirnod, arferion academaidd a gonestrwydd academaidd)</i>	Dim neu fawr ddim tystiolaeth o ddarllen a/neu mae dibyniaeth ar ffynonellau amhriodol. Safbwyntiau a chanfyddiadau ar y cyfan heb gefnogaeth ac yn anawdurdodol. Defnyddir arferion cyfeirnod mewn modd anghydlynol neu ar y cyfan maent yn absennol.	Ymgysylltu ag ystod gyfyngedig o ffynonellau perthnasol a chredadwy ar y cyfan. Peth esgeulustod a mân wallau. Arferion cyfeirnod i'n amlwg ond heb eu cymhwyso'n gywir nac yn gyson bob tro.	Ymgysylltu ag ystod briodol o lenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Rhywfaint o orddibyniaeth ar destunau. Gall y cyfeirnod ddangos mân anghywirdebau neu anghysonderau.	Ymgysylltu ag ystod eang o lenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Detholiad o ffynonellau perthnasol a chredadwy. Defnydd da iawn o gyfeirnod, â fawr ddim/dim anghywirdebau neu anghysonderau.	Ymgysylltu ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy, sydd wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf. Cymhwyso cyfeirnod i'n gyson gywir.
Meddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso.	Gwaith hollol neu bron yn hollol ddisgrifiadol. Fawr ddim neu ddim dadansoddi, synthesis neu gwerthuso. Wedi methu datblygu dadleuon, gan arwain at farn afresymegol neu annilys. Cyffredinoladau heb sail, wedi'u gwneud heb ddefnyddio unrhyw dystiolaeth gredadwy.	Ymgais cyfyngedig at feddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso, gan dueddu tuag at ddisgrifio. Peth dystiolaeth i gefnogi dadleuon a barn cynyddol ond gall y rhain fod heb eu datblygu'n ddigonol neu ag ychydig o anghysondeb / camddehongli. Yn haeru'n hytrach na dadlau achos.	Rhywfaint o feddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso. Gall ddadansoddi cysyniadau a data newydd a/neu haniaethol heb arweiniad. Ymwybyddiaeth gynyddol o wahanol safbwyntiau, a gallu i ddefnyddio tystiolaeth (a allai fod yn anghyflawn) i gefnogi'r ddadl. Dadleuon dilys a barn resymegol ar y cyfan. Rhywfaint o duedd i haeru / datgan barn yn hytrach na dadlau ar sail rheswm a thystiolaeth.	Meddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso cadarn gan arddangos meddwl beirniadol. Gallu i ddyfeisio a chynnal dadleuon argyhoeddiadol ac i adolygu dibynadwyedd, dilysrwydd ac arwyddocâd tystiolaeth (a allai fod yn anghyflawn) er mwyn llunio barn briodol a dilys ar y cyfan.	Meddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso rhagorol neu eithriadol. Gallu i ymchwilio i wybodaeth groes neu anghyflawn a llunio dadleuon cadarn, argyhoeddiadol a barn soffistigedig. Rhywfaint o dystiolaeth o feddwl yn annibynnol a gallu i 'weld y tu hwnt i'r cwestiwn', gan awgrymu gafaél ar y maes a'r cysyniadau ehangach.

Portffolio Fframwaith Cymwyseddau Iaith



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Beth ydy'r Fframwaith Cymhwyseddau Iaith i Ymarferwyr Addysg?

- Fframwaith Genedlaethol sy'n mesur cymhwysedd iaith pob darpar athro / athrawes
- Y gobaith yn y pendraw yw mesur cymhwysedd iaith y gweithlu cyfan.
- Mae'r FfCA mesur sgiliau Gwrando, Llafar, Darllen ac Ysgrifennu yn ogystal ag arddulliau dysgu ac addysgu, h.y. sut mae'r darpar athro'n datblygu sgiliau llythrennedd Cymraeg y dysgwyr.



Fframwaith cymwyseddau iaith ar gyfer ymarferwyr addysg



Lefel Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd/Cymraeg i Oedolion						
Dim sgiliau iaith Gymraeg	Cyn-fynediad	A1/Mynediad	A2/Sylfaen	B1/Canolradd	B2/Uwch	C1/Hyfedredd
Nodweddion y gweithlu Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY): Codau gallu yn y Gymraeg						
W1	Defnydd HCA yn unig	W2	W3	W4	W5	W6
Gwranddo	Dim sgiliau. Rwy'n gallu deall ac ymateb i gyfarchion, cwestiynau a geirfa syml a ddefnyddir yn gyson yng nghyd-destun yr ysgol gyfan.	Rwy'n gallu deall ac ymateb i frawddegau syml pob dydd, sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, pan fydd y siarad yn bwyllog.	Rwy'n gallu deall ac ymateb i amrediad o frawddegau syml sy'n ymwneud â sefyllfaoedd sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, e.e. themâu pob dydd ac amseroedd gwahanol y ferf.	Rwy'n gallu deall ac ymateb i brif bwyntiau pan fydd rhywun yn siarad yn naturiol am bynciau pob dydd o fewn a thu allan i'r ysgol, e.e. mewn sgwrs neu mewn sefyllfaoedd grŵp bach.	Rwy'n gallu deall y rhan fwyaf o drafodaethau, hyd yn oed am bynciau anghyfarwydd ac arbenigol, e.e. mewn cyd-destun ffurfiol.	Rwy'n gallu deall ac ymateb i bron popeth sy'n cael ei glywed, gan gynnwys gwahanol acenion, tafodieithoedd a chyflmyder y siaradwr.
Llafar	Dim sgiliau. Rwy'n gallu ynganu'r wyddor a dweud geiriau syml yn ddigon cywir yng nghyd-destun yr ysgol. Rwy'n gallu cyflwyno fy hun a dechrau rhyngweithio'n gymdeithasol trwy ddefnyddio ymadroddion pob dydd cyfarwydd, e.e. cyfarchion, diolch, canmol dysgwyr a rhoi gorchymynion syml.	Rwy'n gallu cyflwyno fy hun ac eraill ar lafar. Rwy'n gallu gofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth syml, e.e. ble mae rhywun yn byw, beth maen nhw'n hoffi ei wneud. Rwy'n gallu defnyddio amseroedd y ferf a rhifau.	Rwy'n gallu cyfrannu at sgwrs syml gan ddefnyddio amrediad o frawddegau syml sy'n ymwneud â sefyllfaoedd sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, e.e. themâu pob dydd ac amseroedd gwahanol y ferf.	Rwy'n gallu cynnal a chyfrannu at sgwrs am bynciau cyfarwydd sy'n ymwneud â'r ysgol a bywyd pob dydd gan ddefnyddio amrywiaeth o frawddegau syml a chymhleth. Rwy'n gallu disgrifio profiadau a gobeithion, ac yn gallu rhoi esboniadau cryno dros fy marn. Rwy'n dechrau adnabod gwallau cyffredin.	Rwy'n gallu cyfathrebu gan ddefnyddio ystod o gystrawennau sy'n dangos lefel gynyddol o gywirdeb. Rwy'n gallu trafod pynciau anghyfarwydd ac arbenigol. Rwy'n gallu mynegi a chyflwynu barm. Rwy'n gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro.	Rwy'n gallu siarad yn estynedig am faterion cymhleth, ac yn gallu cyflwyno dadleuon gan ddefnyddio'r cywair priodol. Rwy'n gallu rhyngweithio ac arwain trafodaethau a sesiynau addysgu estynedig yn gywir gan amlat. Rwy'n gallu hunangywiro lle bo angen.
Darllen	Dim sgiliau. Rwy'n gallu deall cyfarchion a gorchymynion syml. Rwy'n gallu darllen unrhyw ymadroddion a ddefnyddir mewn testun syml. Rwy'n gallu deall manylion personol elfennol iawn, e.e. enw a chyfeiriad.	Rwy'n gallu deall testunau ysgrifenedig byr iawn lle mae pobl yn rhoi gwybodaeth personol syml amdany'n nhw eu hunain neu eraill, e.e. ffurfienn, arwyddion yr ysgol. Rwy'n gallu darllen gorchymynion sy'n addas i gyd-destun yr ysgol.	Rwy'n gallu deall negeseuon ysgrifenedig am bethau bob dydd a llythrennol/e-byst syml. Rwy'n gallu darllen straeon syml ar goedd gydag ymgais i ynganu'n gywir.	Rwy'n gallu deall erthyglau neu e-byst uniongyrchol am bynciau pob dydd neu bynciau'n ymwneud â'r gwaith. Rwy'n gallu darllen straeon ar goedd gan ynganu'n gywir ar y cyfan.	Rwy'n gallu deall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer siaradwyr rhugl, gyda chymorth geiriadur, ac yn gallu lithr ddarllen (sganio) trwy destunau hir i gael hyd i fanylion. Rwy'n gallu darllen straeon ar goedd yn eithaf hyderus ac ynganu'n gywir.	Rwy'n gallu crynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, ac ail-greu dadleuon a disgrifiadau mewn cyflwyniad cydlynus. Rwy'n gallu darllen straeon ar goedd i ddysgwyr o bob oedran yn hyderus ac ystyrlon.
Ysgrifennu	Dim sgiliau. Rwy'n gallu ysgrifennu geirfa syml a ddefnyddir yn gyson yng nghyd-destun yr ysgol gyfan yn gywir.	Rwy'n gallu ysgrifennu brawddegau syml pob dydd, sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, e.e. cyfarwyddiadau, cwestiynau, gorchymynion, adbarth syml.	Rwy'n gallu ysgrifennu brawddegau cyfansawdd/cymhleth at ddibenion addysgol.	Rwy'n gallu ysgrifennu paragraffau byr am bynciau bob dydd o fewn a thu allan i'r ysgol. Rwy'n dechrau adnabod gwallau cyffredin.	Rwy'n gallu ysgrifennu paragraffau estynedig am amrywiaeth o bynciau anghyfarwydd ac arbenigol, efallai gyda chymorth golygyddol. Rwy'n gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro.	Rwy'n gallu ysgrifennu'n estynedig ac yn safonol am faterion cymhleth. Rwy'n gallu ysgrifennu mewn ystod o ffurfiâu. Rwy'n gallu hunangywiro lle bo angen.



B1- CANOLRADD

GWRANDO	Gallu deall ac ymateb i brif bwyntiau pan fydd rhywun yn siarad yn naturiol am bynciau pob dydd o fewn a thu allan i'r ysgol, e.e. mewn sgwrs, neu mewn sefyllfaoedd grŵp bach	- Rhyngweithio'n estynedig ac yn bwrpasol gyda'r dysgwyr. Gallu defnyddio'r sgiliau hyn i gynnal sgysiau grŵp yn Gymraeg yn eithaf rhugl gyda hyder cynyddol. Gallu adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu agweddau ar lafaredol (siarad a gwrando) ar y lefel gywir yn drawsgwricwlaidd - Gwrando ar eraill ac ymateb yn ystyrlon ac estynedig am bynciau bob dydd gyda chwestiynau a sylwadau sy'n canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a champau nesaf.
LLAFAR	Gallu cynnal a chyfrannu at sgwrs am bynciau cyfarwydd sy'n ymwneud â'r ysgol a bywyd pob dydd gan ddefnyddio amrywiaeth o frawddegau syml a chymhleth. Gallu disgrifio profiadau, gobeithion a rhoi esboniadau cryno dros eu barn. Yn dechrau adnabod gwallau cyffredin.	- Defnyddio'r Gymraeg mewn gwersi a'r tu allan i wersi yn naturiol a chynyddol hyderus gan ehangu ar fanylion personol a phrofiadau a gafwyd yn yr ysgol yn rhydd a chywir ar y cyfan - Addasu sgwrs gan ddangos eu bod yn deall y gwahaniaethau rhwng sgwrs ffurfiol ac anffurfiol a sgwrs fwy estynedig â grŵp ehangach, e.e. <i>defnyddio ti/chi</i> - Defnyddio amrywiaeth o frawddegau syml a chymhleth, a'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir, e.e. <i>fy nghalon, ynghyd â defnydd cynyddol gywir o dermau cenedl enwau ac arddodiaid.</i>
DARLLEN	Gallu deall erthyglau neu negeseuon e-bost uniongyrchol am bynciau pob dydd neu bynciau'n ymwneud â'r gwaith. Gallu darllen straeon ac ynganu'n gywir ar y cyfan.	- Darllen yn ystyrlon ar goedd ac arddangos gallu i drafod cynnwys y testun a mynegi barn - Defnyddio nodiadau'n effeithiol heb ddibynnu'n ormodol amynt er mwyn llywio'r wers.
YSGRIFENNU	Gallu ysgrifennu paragraffau byr am bynciau bob dydd o fewn a thu allan i'r ysgol. Yn dechrau adnabod gwallau cyffredin.	- Cyflwyno adborth ysgrifenedig ar dasgau a chyfleu gwybodaeth sy'n dangos ymwybyddiaeth dda o gywair a chywirdeb. Gallu defnyddio cystrawen a gramadeg priodol, a throsoglwyddo'r sgiliau i ddysgwyr - Defnyddio amrywiaeth o frawddegau a phatrymau, gan ddefnyddio ffurfiau berfol safonol, e.e. <i>ffurfiau presennol, gorffennol, negyddol, yr amodol a threiglo'n gywir gan fwyaf yn arbennig ar ôl y rhan fwyaf o'r arddodiaid a'r rhagenwau, e.e. am funud, dy fam.</i>



B2 - UWCH

GWRANDO	Gallu deall y rhan fwyaf o drafodaethau, hyd yn oed am bynciau anghyfarwydd ac arbenigol e.e. mewn cyd-destun ffurfiol	- Rhyngweithio'n estynedig ac yn hyderus gyda'r dysgwyr gan arddangos dealltwriaeth dda wrth gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu agweddau ar lafared (siarad a gwrando) ar y lefel gywir yn drawsgwricwlaidd - Gwrando ar eraill mewn amrywiol gyd-destunau gan ymateb yn gadarnhaol ac ystyrlon i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol.
LLAFAR	Gallu cyfathrebu gan ddefnyddio ystod o gystrawennau sy'n dangos lefel gynyddol o gywirdeb. Gallu trafod pynciau anghyfarwydd ac arbenigol. Gallu mynegi a chyfiawnhau barn. Gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro.	- Defnyddio'r Gymraeg yn naturiol, hyderus a chynyddol gywir ar draws y cwricwlwm, ateb a holi cwestiynau, ehangu sgwrs, gwrando trafod ac ymateb i safbwynt, ystyried a chynnig rhesymau am safbwynt - Siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio mynegiant, tòn a chryfder y llais, i gadw diddordeb amrediad o wrandawyr, boed yn ddysgwyr neu'n rhieni neu ymwelwyr - Defnyddio amrywiaeth diddorol o frawddegau a ffurfiau berfol ac ystod o dreigladau yn gywir yn eu cyd-destun, ynghyd â defnydd cywir gan fwyaf o dermau cenedl enwau ac arddodiaid.
DARLLEN	Gallu deall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer siaradwyr rhugl, gyda chymorth geiriadur, a sganio trwy destunau hir i gael hyd i fanylion. Gallu darllen straeon yn eithaf hyderus ac ynganu'n gywir.	- Darllen a dehongli testun ar goedd yn hyderus, trafod cynnwys a chyfeirio at dermau yn ddeallus - Defnyddio nodiadau'n effeithiol er mwyn llywio'r wers.
YSGRIFENNU	Gallu ysgrifennu paragraffau estynedig am amrywiaeth o bynciau anghyfarwydd ac arbenigol, efallai gyda chymorth arfau iaith cyfrifiadurol. Gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro.	- Cyflwyno adborth ysgrifenedig ar dasgau gan ysgrifennu'n ymestynol gan arddangos gwybodaeth dda o gywirdeb, rheolau gramadeg a'r awydd i drosglwyddo'r sgiliau hynny i ddisgyblion sy'n ddysgwyr - Defnyddio amrywiaeth diddorol o frawddegau a phatrymau, ffurfiau berfol safonol, ac ystod o dreigladau yn gynyddol gywir gan ddefnyddio strategaethau a chymorth arfau iaith cyfrifiadurol.



Gallu ymarferwyr addysg i gymhwyso a datblygu sgiliau iaith a llythrennedd dysgwyr



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd y datganiadau canlynol yn galluogi ymarferwyr addysg i ddisgrifio eu gallu cyfredol i ddefnyddio amrediad o strategaethau addysgu a dysgu, wrth gynllunio ac addysgu, er mwyn datblygu sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu y dysgwyr ar y lefel briodol.

Rwy'n gallu defnyddio amrediad o strategaethau addysgu a dysgu blaengar yn hyderus a hyfedr.
Rwy'n gallu arwain a chefnogi ymarferwyr eraill yn y maes.

Rwy'n gallu defnyddio amrediad o strategaethau addysgu a dysgu yn effeithiol.
Rwy'n gallu ymchwilio a chymhwyso'r datblygiadau diweddaraf ym maes caffael iaith.

Mae gen i ddealltwriaeth gadarn o strategaethau addysgu a dysgu iaith.
Rwy'n gallu cymhwyso rhai strategaethau yn effeithiol.

Mae gen i ddealltwriaeth o strategaethau addysgu a dysgu iaith.
Rwy'n dechrau cymhwyso strategaethau addysgu a dysgu iaith.

Mae gen i ymwybyddiaeth gyfyngedig o strategaethau addysgu a dysgu iaith.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Defnyddio amrediad o strategaethau addysgu a dysgu, wrth gynllunio ac addysgu, er mwyn datblygu sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu y dysgwyr ar y lefel briodol.

AD1	Mae gen i ymwybyddiaeth gyfyngedig o strategaethau addysgu a dysgu iaith.	- Defnydd cyfyngedig o rai arddulliau addysgu a dysgu wrth gynllunio - Tystiolaeth gyfyngedig o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwr - Defnydd cyfyngedig o strategaethau asesu ar gyfer dysgu - Gallu cyfyngedig i gyfleu disgwyliadau, gan gynllunio tasgau realistig, pwrpasol a gwahaniaethol - Diffyg gallu i ymateb i gamsyniadau'r dysgwyr.
AD2	Mae gen i ddealltwriaeth o strategaethau addysgu a dysgu iaith. Rwy'n dechrau cymhwyso strategaethau addysgu a dysgu iaith.	- Defnydd boddhaol o rai arddulliau addysgu a dysgu wrth gynllunio - Tystiolaeth foddhaol o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwr - Defnydd boddhaol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu - Gallu boddhaol i gyfleu disgwyliadau, gan gynllunio tasgau realistig, pwrpasol a gwahaniaethol Yn anfoddhaol wrth ymateb i gamsyniadau'r dysgwyr.
AD3	Mae gen i ddealltwriaeth gadarn o strategaethau addysgu a dysgu iaith. Rwy'n gallu cymhwyso rhai strategaethau yn effeithiol.	- Defnydd effeithiol o rai arddulliau addysgu a dysgu wrth gynllunio - Tystiolaeth dda o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwr - Defnydd da o strategaethau asesu ar gyfer dysgu - Gallu da i gyfleu disgwyliadau, gan gynllunio tasgau realistig, pwrpasol a gwahaniaethol - Gallu ymateb yn foddhaol i gamsyniadau'r dysgwyr.
AD4	Rwy'n gallu defnyddio amrediad o strategaethau addysgu a dysgu yn effeithiol. Yn ymchwilio a chymhwyso'r datblygiadau diweddaraf ym maes caffael iaith.	- Defnydd effeithiol o amrediad o arddulliau addysgu a dysgu wrth gynllunio - Tystiolaeth gadarn o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwr - Defnydd da iawn o strategaethau asesu ar gyfer dysgu - Gallu da iawn i gyfleu disgwyliadau, gan gynllunio tasgau realistig, pwrpasol a gwahaniaethol - Gallu ymateb yn dda iawn i gamsyniadau'r dysgwyr.
AD5	Rwy'n gallu defnyddio amrediad o strategaethau addysgu a dysgu blaengar yn hyderus a hyfedr.	- Defnydd cyson ac effeithiol o amrediad o arddulliau addysgu a dysgu wrth gynllunio - Tystiolaeth hynod o gadarn o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwr
	Gallu arwain a chefnogi ymarferwyr eraill yn y maes.	- Defnydd effeithiol iawn o strategaethau asesu ar gyfer dysgu - Gallu rhagorol i gyfleu disgwyliadau, gan gynllunio tasgau realistig, pwrpasol a gwahaniaethol - Gallu ymateb yn rhagorol i gamsyniadau'r dysgwyr.

Portffolio Cymraeg



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

Tra eich bod chi yn y Brifysgol neu yn yr ysgolion ar eich Profiad Addysgu Proffesiynol rydych yn cael eich annog i gadw tystiolaeth o'ch sgiliau iaith bersonol canlynol:

- **Llafar**
- **Gwrando**
- **Darllen**
- **Ysgrifennu**

Yn ychwanegol at hyn mae angen tystiolaeth o'ch sgiliau

Addysgu a Dysgu (Modwl 10 Credyd)


Y Portffolio Cymraeg yw eich tystiolaeth fydd yn cael ei asesu.

- Disgwylir i bob myfyriwr sy'n graddio gyda SAC gael lefelau'r Fframwaith ar eu PDP ar ddechrau eu gyrfa.
- Ni ddylai casglu tystiolaeth fod yn llawer o waith ychwanegol. Dylai fod yn rhywbeth sy'n digwydd yn naturiol yn ystod y flwyddyn.

Tasgau posibl i'r portffolio ...

<https://www.porth.ac.uk/>

1. Dewiswch “Addysg” wrth chwilio am yr adnodd.
2. Yr adnodd ydy: Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau Iaith Athrawon
3. Chwiliwch am dasgau addas.



Canllaw ar Ofynion Y Fframwaith 2024-25

- Dyma enghreifftiau o'r mathau o bethau gallwch chi eu cynnwys fel tystiolaeth i enghreifftio eich lefel ar bob sgil. Does dim disgwyl i chi gynnwys pob un o'r rhain ond gwnewch yn siwr bod gennych ddigon o dystiolaeth.

	Cyn-fynediad	Mynediad A1	Sylfaen A2	Canolradd B1	Uwch B2	Hyfedredd C1
Llafar	Recordiad yn dweud cyfarchion syml ar ddechrau gwers e.e. Bore da. Recordiad yn dweud rhai geiriau cyfarwydd.	Recordio eu hunain yn darllen llyfr/ testun syml i'r plant ac yn holi cwestiynau. Recordio meicro-wers fer. Trafodaeth pâr yn holi ac ateb cwestiynau syml, neu'n cael sgwrs fer.	Recordio eu hunain yn darllen llyfr/ testun i'r plant gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau i holi cwestiynau. Recordio meicro-wers. Trafodaeth pâr yn holi ac ateb cwestiynau, neu'n cael sgwrs.	Recordio eu hunain yn darllen llyfr/ testun i'r plant ac yn cynnal trafodaeth syml gyda'r plant. Recordio meicro-wers. Trafodaeth grŵp am bwnc addas.	Trafodaeth grŵp (e.e. am erthygl neu drafodaeth am bwnc llosg ym myd addysg) - gwranddo ac ymateb i'w gilydd. Recordiad o wers sy'n dangos cyfraniad llafar estynedig gan yr unigolyn. Ffug gyfweiliad Recordiad o gyflwyniad llafar y TSI	Trafodaeth grŵp (e.e. am erthygl neu drafodaeth am bwnc llosg ym myd addysg) - gwranddo ac ymateb i'w gilydd Recordiad o wers sy'n dangos cyfraniad llafar estynedig gan yr unigolyn. Ffug gyfweiliad Recordiad o gyflwyniad llafar y TSI.
Darllen	Recordiad yn darllen darn neu lyfr syml iawn – brawddeg neu ddwy.	Recordiad yn darllen sgwrs ar ôl sawl gwrandawriad. Recordiad yn darllen llyfr i'r plant neu'n darllen cyfarwyddiadau i'r plant.	Recordiad yn darllen sgwrs ar ol sawl gwrandawriad. Recordiad yn darllen llyfr i'r plant a thrafod y testun. Tasg ddarllen a deall	Recordiad yn darllen sgwrs ar ol sawl gwrandawriad. Recordiad yn darllen llyfr i'r plant ac yn trafod y testun neu'n mynegi barn arno.	Aseiniad academiaidd â ffynonellau (mwy nag un yn unig) Cymraeg. Recordiad yn darllen rhan o nofel Gymraeg ac yn trafod y testun yn drylwyr mewn	Aseiniad academiaidd ag amrywiaeth o ffynonellau Cymraeg Recordiad yn darllen rhan o nofel Gymraeg ac yn dadansoddi'r testun yn estynedig

		Tasg ddarllen a deall. Ymarferion cyfieithu.	Cyn-bapurau arholiadau darllen Defnyddio'r Gymraeg Sylfaen ar wefan CBAC* Ymarferion cyfieithu.	Tasg ddarllen a deall. Cyn-bapurau arholiadau darllen Defnyddio'r Gymraeg Canolradd ar wefan CBAC*	grŵp e.e Clwb Darllen, neu'n trafod y cymeriad/au	mewn grŵp e.e Clwb Darllen.
Ysgrifennu	Ateb cwestiynau syml – un gair neu un frawddeg. Ambell frawddeg syml wedi eu hysgrifennu ar adnoddau. Adnoddau geirfa syml e.e cardiau fflach.	Adnoddau addysgol – Mat iaith/poster. Creu rhestr o gwestiynau i ofyn i'r plant mewn cynllun gwers. Ysgrifennu sgrïpt syml. Sgrinluniau o'r cwestiynau yn y Forms lle mae gofyn i chi ysgrifennu /trefnu brawddegau syml yn gywir.	Creu adnoddau – Mat iaith/poster. Creu rhestr o gwestiynau i'w gofyn i'r plant neu'r patrymau byddwch chi'n eu defnyddio mewn cynllun gwers. Ysgrifennu hunanbortread. Sgrinluniau o'r cwestiynau yn y Forms lle mae gofyn i chi ysgrifennu /trefnu brawddegau syml yn gywir.	Creu adnoddau – Mat iaith /poster/ Quizlet Creu rhestr o gwestiynau i'w gofyn i'r plant neu'r patrymau byddwch chi'n eu defnyddio mewn cynllun gwers. Ysgrifennu cynllun gwers drwy gyfrwng y Gymraeg.	Aseiniad academiaidd Datganiad personol - cais am swydd Llythyr ffurfiol e.e. at rieni. Adroddiadau ar waith disgyblion.	Aseiniad academiaidd Datganiad personol - cais am swydd Llythyr ffurfiol e.e. at rieni. Adroddiadau ar waith disgyblion.

Gwrandu	Recordiad o atebion i gwestiynau syml e.e Pwy wyt ti?	Cadw cofnod o ganlyniadau cwisiau/Microsoft Forms lle mae ymarferion gwrandu Recordiad ohonoch chi'n gwneud yr	Cadw cofnod o ganlyniadau cwisiau/Microsoft Forms lle mae ymarferion gwrandu Recordiad ohonoch chi'n gwneud yr	Cadw cofnod o ganlyniadau cwisiau/Microsoft Forms lle mae ymarferion gwrandu	Trafodaeth grŵp (e.e. am erthygl neu drafodaeth am bwnc llosg ym myd addysg) - gwrandu ac ymateb i'w gilydd	Trafodaeth grŵp (e.e. am erthygl neu drafodaeth am bwnc llosg ym myd addysg) - gwrandu ac ymateb i'w gilydd
---------	---	--	--	--	---	---

		ymarferion gwrandu e.e. gwrandu ar sgwrs yna ateb cwestiynau /llenwi bylchau. Recordiad ohonoch chi'n ymateb i gwestiynau syml gan ddysgwyr yn y dosbarth e.e. meicro wers lle rydych chi'n ymateb i'r plant.	ymarferion gwrandu e.e. gwrandu ar sgwrs yna ateb cwestiynau /llenwi bylchau. Recordiad ohonoch chi'n ymateb i gwestiynau syml gan ddysgwyr yn y dosbarth e.e. meicro wers lle rydych chi'n ymateb i'r plant.	Gwrandu ar sgwrs yn y Gymraeg a chyfieithu'r cynnwys Recordio sgwrs "naturiol"- holi ac ateb ei gilydd.	Recordiad o wers - dangos ymateb i'r disgyblion (ar y lefel hon, nid yw'n ddigon o dystiolaeth ar ei ben ei hun) Cyflwyniad TSI - y cwestiynau ar y diwedd	Recordiad o wers - dangos ymateb i'r disgyblion (ar y lefel hon, nid yw'n ddigon o dystiolaeth ar ei ben ei hun) Cyflwyniad TSI - y cwestiynau ar y diwedd
--	--	--	--	--	---	---

Gwnewch yn siŵr bod gennych ddigon o dystiolaeth ar gyfer pob un o'r sgiliau (uchafswm o 5 darn ar gyfer pob un o'r sgiliau unigol).

Rhif Myfyriwr: _____

Rhaglen (ticiwch y blwch perthnasol):

TAR Cynradd	TAR Uwchradd	BA Addysg
-------------	--------------	-----------

	Math o dystiolaeth	Rhesymau dros gyflwyno'r dystiolaeth
SIARAD		
GWRANDO		
DARLLEN		
YSGRIFENNU		
Addysgu a Dysgu		

Mae copi yn Moodle i chi.

Cyngor doeth wrth baratoi'r portfolio

- Tystiolaeth BERTHNASOL o'ch sgiliau iaith bersonol – rhaid i'r dystiolaeth fod yn berthnasol i'r disgrifiadau lefel.
- DIGON o dystiolaeth o'r 4 sgil a'ch gallu o ran y dulliau addysgu a dysgu, ond peidiwch gorlwytho. Ni ddylech gyflwyno mwy na 5 adnodd ar gyfer unrhyw sgil. Meddyliwch PAM rydych chi'n cyflwyno pob darn.
- Gwrando – os ydych yn cyflwyno tasgau gwrando fel tystiolaeth, rhaid i chi gynnwys y ffeil sain yn ogystal â'ch atebion i'r cwestiynau, neu fydd y dystiolaeth ddim yn profi eich gallu gwrando chi.
- Ysgrifennu – cynnwys aseiniad sy'n dangos eich gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg a'ch gallu i gyrraedd lefelau uchaf y sgil darllen.
- Addysgu a Dysgu: Dylech chi gyflwyno eich portffolio o adnoddau addysgu ar gyfer y modwl 10 credyd yn y fan hon gan gynnwys y recordiad fideo. Mae croeso i chi gyflwyno unrhyw dystiolaeth addysgu a dysgu ychwanegol y tu hwnt i aseiniad y modwl yma hefyd os yw'n berthnasol.
- Os ydych chi'n cyflwyno darn o dystiolaeth sy'n berthnasol ar gyfer sawl sgil, nodwch hynny yn y tabl uchod. Dim ond unwaith fydd angen i chi lwytho'r ffeil i'r PDP.
- Dangoswch eich hun ar eich gorau yn y portffolio – dewiswch eich tystiolaeth yn ddoeth!



- Bydd modd i chi lwytho eich tystiolaeth i'r PDP cyn y dyddiad cyflwyno
- Cewch chi gyfarwyddiadau manwl ar sut i lwytho'ch gwaith i'r PDP yn y darlithoedd ym mis Rhagfyr/ Chwefror.
- Tan hynny, cadwch eich tystiolaeth yn ddiogel mewn ffolder 'One Drive'

Cymraeg mewn Arfer Proffesiynol

ECAD5019C

Modwl 10 Credyd

Portffolio yn cynnwys:

- cynllun gwers
- adnoddau
- recordiad o'r wers feicro
- gwerthusiad o'r wers
- Cyflwyno ar **Turnitin**

Portffolio Fframwaith Cymwyseddau Iaith (gofyniad LLC)

Portffolio yn cynnwys:

- tystiolaeth o'ch sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer siarad, ysgrifennu, gwranddo a darllen
- tystiolaeth o strategaethau 'Dysgu ac Addysgu' (gwaith y Modwl 10 Credyd)
- Cyflwyno ar **Pebblepad**.

Dyddiad Cyflwyno Popeth:

**Dydd Mercher 4ydd o
Fawrth 2026**

Darlith nesaf:

**Dydd Iau 26ain o
Chwefror 2026
am 9yb.**

Oes cwestiwn?



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru